"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 16eg Mehefin, 2025**, yn Neuadd Goffa, Sarn, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Cadeiryddes)
Y Cynghorydd Elin Hughes (Is-Gadeiryddes)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Dylan Parry Jones, Michael Strain
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

20. **CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES**

Croesawodd y Cadeiryddes yr aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i'r rhai ddaeth ynghyd i gasglu yswbriel ym mhentref Sarn Mellteyrn.

21. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

22. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed MAI, 2025**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Mai, 2025.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Carys E. Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

Eitem 11 - cymal111 – Lloches bws ym Motwnnog

Penderfynwyd gohirio am y tro.

Eitem 12 – Ceisiadau Cynllunio

Cyflwynwyd adrodddiad gan y Clarc iddi gael rhestr gan yr Adran Gynllunio, Cyngor Gwynedd, o'r ceisiadau yng nghymdeithas Botwnnog yn ystod mis Mai i Tachwedd, 2024. O'r wyth cais fu nid oedd gwybodaeth wedi dod drwodd i'r Clarc er fod y Gwasanaeth Cynllunio yn dweud eu bod wedi cael eu hanfon. Syrthiodd y Clarc ar ei bai iddi fethu dau gais, un mis Mawrth a'r llall ym mis Mai, 2024, ac ymddiheurodd am ei chamgymeriad. Dywedodd fod ganddi gysylltiad da gyda'r Cynghorydd Gareth Williams a'u bod yn cydweithio er sicrhau na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol agos a gofynnodd yn garedig i'r aelodau os yr ydynt yn gwybod am gais ddylai gael ei drafod a'r cais hwnnw ddim ar y rhaglen, am iddo/i roi gwybod i'r Clarc cyn noson y Cyngor.

Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Glyn Roberts roi gwybodaeth i'r Clarc y dydd Mawrth cyn y Cyngor o unrhyw gais y mae'n ymwybodol ohono a ddylai gael ei drafod yn y cyfarfod dilynol.

Eitem 13 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Cyflwynwyd adroddiad gan Y Cynghorydd Gareth Williams fod y 'speed strips' i lawr ym mhentref Sarn a dylai'r canlyniadau fod i law erbyn diwedd y mis.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

Eitem 16 – Blodau i'r bareli

Diolchwyd i'r Cynghorydd Michael Strain am gyrchu'r blodau o Dyddyn Sachau ac i'r aelodau a'r gwirforddolwyr am eu plannu yn y pentrefi.

23. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD GARETH WILLIAMS, CYNGHORYDD PEN DRAW LLŸN YNG NGHYNGOR GWYNEDD**

Cyflwywynd adroddiad blynyddol Y Cynghorydd Gareth Williams, Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd. Bydd yr adroddiad yn rhan o'r cofnodion.
Penderfynwyd derbyn gyda diolch am ei waith dros y Gymuned.

24. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Nid oedd unrhyw gais i law.

25. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Ni dynnwyd sylw at unrhyw fater.

26. **MEINCIAU YM MRYNCROES A BOTWNNOG**

Tynnwyd sylw fod angen paentio'r meinciau ym mhentef Bryncroes a Botwnnog.
Dywedodd Y Cynghorydd Glyn Roberts y byddai ef yn ymgymryd â hyn a diolchwyd iddo.

27. **HEN YSGOL BRYNCROES**

Cyflwynwyd cŵyn ddaeth i law'r Cynghorydd Gareth Williams, fod angen "strimmio a chwynu o amgylch yr hen Ysgol." Honai'r achwynydd fod "plant bellach yn methu mynd i chwarae yn y parc bach herwydd yr holl dyfiant a'r ysbwriel."
Adroddodd Y Cynghorydd Glyn Roberts fod y gwaith eisoes wedi ei wneud a diolchwyd iddo.

28. **AWDURDOD I DALU**

Awdurdodwyd y taliadau a ganlyn:

Llanw Llŷn – hysbyseb codi'r lloches bws	£ 13.50 (siec 200867)
Canolfan Arddio Tyddyn Sachau – blodau i'r bareli	£240.00 (siec 200868)
Y Clarc	£420.00 (siec 200869)
HMRC	£105.00 (siec 200870)

29. **GWASANAETH IEUENCTID CYNGOR GWYNEDD**

Cyflwynwyd e-bost gan Steffan Williams, Rheolwr Gwasanaethau Ieuenctid, Cyngor Gwynedd, fod yna "gyfle posib i sefydlu neu ailsefydlu Clwb Ieuenctid yn ardal eich plwyf, a fyddai'n cael ei weinyddu gan y Gwasanaeth Ieuenctid."
Aeth yr e-bost ymlaen i ddweud "rydym yn chwilio am gynghorau lleol a allai fod â diddordeb mewn cydweithio gyda ni drwy ddarparu cyfraniad ariannol tuag at gostau gweithredu clwb ieuenctid rheolaidd i bobl ifanc 11-18 oed yn eu hardal. Byddem ni fel Gwasanaeth yn gyfrifol am y trefnidiadau gweithredol, gan gynnwys recriwtio staff cymwys, hyfforddiant, hyrwyddo a chynllunio rhaglen weithgareddau ystyrlon sy'n ymateb i anghenion y bob ifanc leol."
Penderfynwyd gwahodd y Swyddog i gyfarfod nesaf y Cyngor er cael mwy o wybodaeth.

30. **CYFLWYNIAD GWYNEDD NI I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED GWYNEDD**

Cyflwynwyd llythyr gan Alys Rees Jones o Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd yn hysbysu ei bod yn "fwriad gennym i agor cronfa yn arbennig i Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd gael cyflwyno a datblygu cynlluniau sy'n gwella eu hardaloedd. Mae rhan o gynllun Gwynedd Ni, fydd yn cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU." Aeth y llythyr ymlaen i ddweud mai "pwrpas Cronfa Gwynedd Ni yw gwella edrychiad, cyfleusterau a bwrlwm trefi a phentrefi Gwynedd, a

bydd yn ofynnol i'r cynlluniau a gynigir ymateb i hyn. Mae'r dyraniad ariannol yn seiliedig ar boblaeth dalgylch Cyngor Tref/Cymuned." (Nodyn uchafswm y dyraniad i Gyngor Botwnnog fyddai £5,000). Noder fod y dyddiad cau 31ain Gorffennaf, 2025.
Ystyriwyd a fyddai cynnal Clwb Ieuenctid yn yr ardal yn dod o dan y canllawiau a **phenderfynwyd** ystyried hwn ymhellach yn y cyfarfod nesaf yn dilyn sylwadau gan aelod o'r Gwasanaeth Ieuenctid.

31. **GWERTHUSIAD ANNIBYNOL O'R PEILOT AIL GARTEFI A FFORDDIADWYEDD**
Cyflwynwyd gan Cyffin, Ymchwilydd Cymdeithasol gydag Alama Economics, sydd wedi cael eu comisynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad annibynnol o'r Peilot Ail Gartrefi a Fforddiadwyedd.
Mae'r Ymchwilydd yn awyddus i siarad â phobl sydd a diddordeb yn y farchnad dai leol yng Ngwynedd, yn cynnwys trigolion, grwpiau cymunedol a pherchenogion ail gatrefi a llety gwyliau tymor-byr. Gofynnodd yr Ymchwilydd os yr hoffai unrhyw un gefnogi'r ymchwil pwysig yma, yna iddynt gwblhau y ffurflen fer yn y cyfeiriad isod i fynegi eich diddordeb https://forms.office.com/e/gKUzYjrN5D
Neu, os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwerthusiad neu heriau technegol, cysylltwch â: dwyforpilotevaluation@almaeconomics.com.
Penderfynwyd rhoddi'r manylion yn rhifyn Gorffennaf o'r Llanw.

32. **ARCHWILIO'R CYFRIFON HYD 31ain MAWRTH, 2025**
Adroddodd y Clarc fod yr Archwiliwr Mewnol wedi cwblhau ei gwaith – gweler amgaeedig. Ar sail hyn **cymeradwyodd** y Cyngor fod y datganiadau cyfrifyddu a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gywir ac **awdrudodwyd** Y Gadeiryddes i'r harwyddo ar ran y Cyngor. Mae'r ffurflen flynyddol yn rhan o'r cofnodion hyn.
Nodwyd hefyd fod hysbyseb archwilio ar gyfer hawliau etholwyr wedi ei gyhoeddi ar yr hysbysfyrddau ym Motwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryncroes ac hefyd ar wefan y Cyngor. Y cyfnod archwilio o 1af Gorffennaf hyd 28ain Gorffennaf, 2025.

33. **DYDDIADAUR HYFFODDIANT – UN LLAIS CYMRU**
Gofynnwyd i unrhyw aelod fyddai'n hoffi cael mynychu un o'r hyffoddiannau hyn i roi gwybod i'r Clarc.

34. **COFNODION PWYLLGOR ARAL ARFON A DWYFOR**
Rhannwyd copi o gofnodion y Pwyllgor gynhaliwyd 13eg Mai, 2025, gyda rhaglen y Cyngor.
Fel aelod o'r Pwyllgor gofynnodd Y Cynghorydd Siôn Williams a fyddai'r Cyngor yn gallu gofyn am i'r cyfarfodydd hyn gael eu cynnal dros 'zoom' gan ei bod yn anodd iddo gael amser i drafaelio i'r cyfarfodydd oherwydd gwaith.
Penderfynwyd gwneud hyn.

35. **CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLŸN**
Nodwyd fod y cyfarfod uchod ar Nos Fercher, 2ail Gorffennaf, 2025.

ADRODDIAD Y CYNGHORYDD GARETH WILLIAMS
CYNGHORYDD PEN DRAW LLŶN AR GYNGOR GWYNEDD

Annwyl Aelodau,

Dyna flwyddyn arall wedi pasio.

Dymunaf ddiolch yn fawr i chi eto eleni am gael y cyfle i fynychu'r cyfarfodydd gyda chi.

Mae'n braf iawn gallu cyd-weithio gyda Cyngor mor bositif a chefnogol i'r Ardal ac i'r Gymuned.

Braf hefyd yw cael Gwenda fel Clerc, sydd wastad ar gael os wyf angen Cyngor ar unrhyw fater. Mae hyn yn gwneud fy ngwaith i fel Cynghorydd yn llawer iawn haws.

Mae wyth mlynedd bellach wedi pasio ers pan gefais fy ethol yn gyntaf, ac er fod y sialens yn llawer lawn mwy heriol ers uno'r Wardiau, gallaf ddweud yn onest fy mod yn dal i fwynhau'r profiad.

Datganaf yn onest unwaith eto mai fy mraint mwyaf yw cael cyfle i helpu fy ardal fy hunan-trigolion, ysgolion a Chynghorau Cymdeithas Pendraw Llŷn.

Credaf fod amseroedd anodd o'n blaenau yn anffodus, gyda diffyg cyllid yn arwain at doriadau i wasanaethau a chynydd mewn trethi a biliau – ond mae'n bwysig ein bod yn cario ymlaen i gyd-weithio a gwneud y gorau a fedrwn dros ein trigolion.

Diolch yn fawr iawn i chi i gyd am roi eich amser i ddarllen fy adroddiad.

Gareth

Mehefin, 2025

ADRODDIAD ARCHWILIAD MEWNOL

Archwilio Mewnol
Cyngor Gwynedd

CYNGOR CYMUNED BOTWNNOG

FFORDD GWYNEDD

RHOI POBL GWYNEDD YN GANOLOG I BOPETH RYDYM YN EI WNEUD
*PUTTING **THE PEOPLE OF GWYNEDD** AT THE CENTRE OF EVERYTHING WE DO*

ARCHWILIAD MEWNOL
CYNGOR CYMUNED BOTWNNOG

1. Bwriad yr Archwiliad

1.1 Bwriad yr archwiliad oedd adolygu trefniadau ariannol a llywodraethu'r Cyngor yn unol â ymarfer priodol fel yr amlinellir yng nghyhoeddiad Un Llais Cymru / Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol "Llywodraethu ac Atebolrwydd i Gynghorau Lleol yng Nghymru - Canllaw Ymarferydd 2019".

1.2 Roedd yr archwiliwr mewnol yn ymgymryd â rhaglen waith yn seiliedig ar asesiad o risg. Roedd cwmpas a maint yr archwiliad yn gymesur ag anghenion, maint ac amgylchiadau'r Cyngor, ac yn seiliedig ar sampl o ddogfennau.

2. Prif Ddarganfyddiadau

2.1 Dengys yn Atodiad A yr amcanion rheolaethol a brofwyd ac a gafwyd yn foddhaol.

3. Barn yr Archwiliad

Gellir datgan sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu Cyngor Cymuned Botwnnog ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024-25 yn seiliedig ar y profion a gynhaliwyd.

4. Cydnabyddiaeth

4.1 Hoffai'r archwiliwr ddiolch i'r Clerc am y cymorth a'r cydweithrediad wrth baratoi'r adroddiad archwilio hwn.

LUNED FÔN JONES
Rheolwr Archwilio
Mehefin 2025

ATODIAD A

AMCANION RHEOLAETHOL A DARGANFYDDIADAU'R ARCHWILIAD

Mae archwiliad mewnol y Cyngor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol ddaeth i ben 31 Mawrth 2025.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol isod ar y rheolaethau sy'n cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor.

- Llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn
- Bodlonwyd rheoliadau ariannol a chefnogwyd taliadau gan anfonebau
- Cymeradwyd gwariant
- Rhoddwyd cyfrif priodol am TAW

- Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli

- Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept o broses gyllidebu ddigonol
- Cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd
- Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n syth, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW

- Talwyd cyflogau i gyflogeion yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd
- Cymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol

- Cofrestrau asedau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol

- Cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn wedi eu cynnal yn briodol

- Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, ac wedi'u cefnogi gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol

- Mae'r Cyngor wedi paratoi adroddiad blynyddol, cynllun bioamrywiaeth a chynllun hyfforddiant

Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2025

Datganiad cyfrifyddu 2024-25 ar gyfer:

Enw'r corff: CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

	Y flwyddyn a ddaeth i ben		Nodiadau a chanllawiau
	31 Mawrth 2024 (£)	31 Mawrth 2025 (£)	**Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.**
Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau			
1. Balansau a ddygwyd ymlaen	9,934	7,755	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol.
2. (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll	6,500	6,500	Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff.
3. (+) Cyfanswm derbyniadau eraill	1,302	1,547	Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw.
4. (-) Costau staff	2,100	2,100	Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob cyflogai ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, lwfansau trethadwy, TWE ac YG (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a chostau terfynu. Ni ddylech gynnwys ad-dalu mân dreuliau.
5. (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf	0	0	Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl).
6. (-) Cyfanswm taliadau eraill	7,882	5,308	Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5).
7. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	7,755	8,394	Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6).
Datganiad o falansau			
8. (+) Dyledwyr	0	0	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff ar ddiwedd y flwyddyn.
9. (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau	7,755	8,394	**Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc.
10. (-) Credydwyr	0	0	**Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw benthyciadau) ar ddiwedd y flwyddyn.
11. (=) Balansau a gariwyd ymlaen	7.755	8,394	**Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10).
12. Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor	18,876	18,876	Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth.
13. Cyfanswm benthyciadau	0	0	Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB).

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Cyngor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025, ein bod wedi gwneud y canlynol:

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor:	Pecyn Cymorth
	Do	Naddo*		
1 Mewn ymgynghoriad â'r gymuned, rydym wedi datblygu gweledigaeth a diben ar gyfer y Cyngor ac wedi defnyddio'r weledigaeth hon i oleuo cynlluniau, cyllideb a gweithgareddau'r Cyngor.	Do		Wedi ymgynghori â'r gymuned ac wedi canolbwyntio ei weithgareddau i ddiwallu anghenion y gymuned.	A, C
2. Rydym wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau a swyddogion ac wedi rhoi cynllun hyfforddi priodol ar waith ar gyfer aelodau i sicrhau bod yr holl gynghorwyr yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.	Do		Yn sicrhau bod cynghorwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau a'u bod wedi eu harfogi i'w cyflawni.	B
3. Rydym wedi sicrhau ein bod yn cyhoeddi'n electronig yr wybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Cyngor ei chyhoeddi, ar ei wefan yn [mewnosodwch enw'r wefan]. www.cyngorbotwnnog.cymru	Do		Yn dryloyw ynglŷn â'i weithgareddau ac yn darparu'r holl wybodaeth ar gyfer y cyhoedd sy'n ofynnol yn gyfreithiol.	A, C, D, E
4. Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfau a rheoliadau perthnasol wrth arfer ei swyddogaethau, gan gynnwys cyflogi staff a thalu lwfansau i aelodau.	Do		Wedi gwneud dim ond y pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau yn y ffordd y mae'n gwneud hynny.	
5. Rydym wedi mabwysiadu rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol a chylchoedd gorchwyl ac yn sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn wrth gynnal busnes gan gynnwys swyddogaethau a ddirprwywyd i bwyllgorau.	Do		Wedi mabwysiadu rheolau a gweithdrefnau i lywodraethu sut y mae'r Cyngor yn cynnal ei fusnes gan gynnwys caffael nwyddau a gwasanaethau.	B, E
6. Rydym wedi sefydlu trefniadau ar gyfer: • Rheoli ariannol effeithiol gan gynnwys pennu a monitro cyllideb y Cyngor • Cadw cofnodion cyfrifyddu a chofnodion ariannol eraill sy'n gywir ac yn gyfoes a diogelwch yn cofnodion hynny • Adnabod rhwymedigaethau, ymrwymiadau, digwyddiadau a thrafodiadau posibl a allai gael effaith ariannol ar y Cyngor	Do		Wedi cyfrifo ei ofyniad cyllidebol yn unol â'r gyfraith ac yn monitro ei sefyllfa ariannol mewn modd priodol trwy gydol y flwyddyn.	D
7 Rydym wedi cynnal system rheolaeth fewnol a rheoli risgiau ddigonol, gan gynnwys: • mesurau sydd wedi'u bwriadu i atal a chanfod twyll a llygredigaeth gan gynnwys gweithdrefnau wedi'u dogfennu'n glir ar gyfer awdurdodi a gwneud taliadau • asesu a rheoli risgiau sy'n wynebu'r Cyngor • system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ac wedi adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn.	Do		Wedi gwneud trefniadau priodol ac wedi derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu arian ac adnoddau cyhoeddus sydd yn ei ofal gan gynnwys trefnu bod person cymwys, sy'n annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, yn rhoi barn wrthrychol i ddynodi a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff.	D, E
8. Rydym wedi cymryd camau gweithredu priodol ar bob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol.	Do		Wedi ystyried a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â gwendidau/materion a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol.	D, E

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

	Cytunwyd?		Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor:	Pecyn Cymorth
	Do	Naddo*		
9. Rydym wedi rhoi cyfle priodol i arfer hawliau etholwyr yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.	Do		Wedi rhoi'r cyfle i bob person â buddiant edrych ar gyfrifon y corff fel a nodir yn yr hysbysiad o archwiliad a gyhoeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol.	E
10. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol – Mae'r Cyngor wedi penderfynu mabwysiadu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	Do		Yn bodloni'r meini prawf cymhwystra i arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol.	E

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

Nodiadau datgelu ychwanegol

Cynhwyswch yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiad cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol

Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol
1. **Gwariant dan A137 Deddf Llywodraeth Leol 1972** Mae Adran 137(1) Deddf 1972 yn caniatáu i'r Cyngor wario ar weithgareddau nad oes ganddo unrhyw bwerau penodol eraill ar eu cyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er lles, ac y bydd yn dwyn budd uniongyrchol i, yr ardal neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan neu rai o'i thrigolion, ar yr amod bod y budd yn gymesur â'r gwariant. Mae Adran 137(3) hefyd yn caniatáu i'r Cyngor ysgwyddo gwariant at rai dibenion elusennol ac eraill. Yr uchafswm gwariant y gellid ei ysgwyddo dan adran 137(1) a (3) ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 oedd £10.81 yr etholwr Yn 2024-25, fe wnaeth y Cyngor daliadau yr oedd eu cyfanswm yn £_____200_____ dan adran 137. Mae'r taliadau hyn wedi'u cynnwys o fewn 'Taliadau eraill' yn y Datganiad Cyfrifyddu.
Adran 137 **Cylch Meithrin Pont y Gof £200**
3. Llesiant 2000 Clwb Snwcer Sarn £200 Urdd Gobaith Cymru – Eryri £50 Radio Ysbyty Gwynedd £50 Pwyllgor Cae Chwarae Sarn £100 Mynwent Eglwys Botwnnog £125 Cyfeirllion Mynwent Sarn Mellteyrn £125 Prynwyd hefyd flodau i'r tybiau i'r gwehanol bentrefi £200 Barrel ar gyfer pentref Bryn Mawr, Sarn Mellteyrn £39.99 Cyfraniad i'r tri pentref (Botwnnog, Sarn Mellteyrn a Bryncroes) tuag at gael coeden/goleuadau Nadolig £150

Cronfeydd Ymddiriedolaeth

Cronfeydd ymddiriedolaeth – Mae'r Cyngor yn gweithredu fel unig ymddiriedolwr ar gyfer, ac mae'n gyfrifol am reoli, cronfa(cronfeydd)/asedau ymddiriedolaeth. Nid ydym yn cynnwys trafodiadau sy'n ymwneud â'r ymddiriedolaethau hyn yn y Datganiad Cyfrifyddu. Yn ein cymhwyster fel ymddiriedolwr, rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldeb mewn perthynas â'r atebolrwydd am y gronfa(cronfeydd) gan gynnwys adrodd ariannol ac, os yw'n ofynnol, archwilio annibynnol.	**Do**	**Nad do**	**Amh.** **Amh**	Wedi cyflawni ei holl gyfrifoldebau lle mae'n unig ymddiriedolwr rheoli ar gyfer ymddiriedolaeth leol neu ymddiriedolaethau lleol.

*** Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda**

Cymeradwyaeth ac ardystiad y Cyngor

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Cyngor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.	**Cymeradwyaeth gan y Cyngor** Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor o dan gyfeirnod cofnod:
	Cyfeirnod cofnod: 32 - Archwilio Cyfrifon hyd at 31/3/25
Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol: G Roberts	**Llofnod y Cadeirydd:** G. [signature]
Enw: GWENDA ROBERTS	**Enw:** GWENAN GRIFFITHS
Dyddiad: 30/05/25	**Dyddiad:** 16/6/2025.

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

Adroddiad archwilio mewnol blynyddol ar gyfer:

Enw'r corff: **CYNGOR CYMUNED BOTWNNOG**

Mae archwiliad mewnol y Cyngor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad detholus o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Cyngor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a gafodd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd arwyddocaol, eu bodloni trwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Cyngor.

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Nadd o[4]	Amh.	Heb ei gynnwys**	
1. Mae llyfrau cyfrifon priodol wedi cael eu cadw'n briodol trwy gydol y flwyddyn.	✓				
2. Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif yn briodol am TAW.	✓				
3. Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer rheoli'r rhain.	✓				
4. Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ~~ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol~~.	✓				
5. Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif yn briodol am TAW.	✓				
6. Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif yn briodol am TAW.			✓		
7. Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, ac fe gymhwyswyd gofynion TWE ac YG yn briodol.	✓				
8. Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac fe'u cadwyd yn briodol.	✓				

** Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Nadd o*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
9. Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol.	✓				
10. Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail gyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â'r llyfr arian parod, wedi'u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo'n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi'n briodol.	✓				
11. Cronfeydd ymddiriedolaeth (gan gynnwys ymddiriedolaethau elusennol). Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau fel ymddiriedolwr.			✓		

Ar gyfer unrhyw feysydd risg a adnabuwyd gan y Cyngor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill neu ar ddalenni ar wahân os oes angen) yr oedd rheolaethau digonol yn bodoli:

	Cytunwyd?				Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff)
	Do	Nadd o*	Amh.	Heb ei gynnwys**	
12.					
13.					
14.					

* Os atebwyd 'naddo', nodwch y goblygiadau a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw wendid mewn rheolaeth a adnabuwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd 'heb ei gynnwys', nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i'r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

[Mae fy nghanfyddiadau manwl a'm hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw'r Cyngor wedi'u cynnwys yn fy adroddiad manwl i'r Cyngor dyddiedig _____Mehefin 2025_____.] * Dileer os nad oes adroddiad wedi'i baratoi

Cadarnhau archwiliad mewnol

I'Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Cyngor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi'r cyfrifon) nac fel aelod o'r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2024-25 a 2025-26. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad

Enw'r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Eva Chan Williams

Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: *E C Williams*

Dyddiad: 12/06/2025

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda

* Cynhwyswch esboniad ar gyfer unrhyw atebion 'NADDO' os gwelwch yn dda